COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 A GYNHALIWYD O BELL - TRWY DIMAU MICROSOFT DYDD LLUN, 14 MEHEFIN 2021, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd KL Rowlands – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| TH Beedle | JPD Blundell | RJ Collins | PA Davies |
| SK Dendy | T Giffard | CA Green | DG Howells |
| M Hughes | M Jones | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Gebbie, B Sedgebeer, RME Stirman a/ac T Thomas

Cynrychiolwyr Cofrestredig

| | |
|---|---|
| L Morris | Sector Ysgolion Uwchradd |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Tracy Watson | Swyddog Cymorth Craffu |

23. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

24. ADRODDIAD ENWEBU PENCAMPWR RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynodd Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio adroddiad, gyda'r pwrpas o ofyn i'r Pwyllgor i enwebu un Aelod fel ei Bencampwr Rhianta Corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor fel un fyddai'n cael ei g/wahodd i gyfarfodydd Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet.

Gwahoddwyd enwebiadau gan y Cadeirydd, ac yn dilyn hynny

PENDERFYNWYD: Y dylid enwebu'r Y Cynghorydd J Gebbie i gynrychioli'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Testun 1 fel un gwahoddedig i gyfarfodydd Rhiant Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet.

25. ENWEBIAD I BANEL CRAFFU BWRDD Y GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio adroddiad, gyda'r pwrpas o ofyn i'r Pwyllgor i enwebu un Aelod i eistedd ar Banel Craffu Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gwahoddwyd enwebiadau gan y Cadeirydd, ac yn dilyn hynny

PENDERFYNWYD: Y dylid enwebu'r Y Cynghorydd SK Dendy i gynrychioli'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Testun 1 fel un gwahoddedig i gyfarfodydd Panel Craffu Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus.

26. DIWEDDARIAD AR Y BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd Uwch-swyddog Gwasanaethau Democrataidd amlinelliad drafft arfaethedig y Blaenraglen Waith (BRW) (Atodiad A) i'r pwyllgor i'w drafod a'i ystyried, gan ofyn i unrhyw wybodaeth benodol a nodir gan y Pwyllgor gan ei chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys gwahoddedigion maen nhw'n dymuno iddyn nhw fynychu, gofyn i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Blaenraglen Waith gyda golwg ar y meini prawf dewis ym mharagraff 4.6 a gofyn i'r Pwyllgor i nodi y byddai adroddiad ar ddrafft arfaethedig y Blaenrhaglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgor yng nghyfarfod nesaf COSC, gyda sylwadau gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Testun priodol, yn dilyn ystyriaeth yn eu Cyfarfodydd ym mis Mehefin.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad a'r drafodaeth, cynigiodd Aelodau'r Pwyllgor y dylid ychwanegu'r eitem ganlynol i'r BRW:

- Sut y deliodd ysgolion â'r pandemig (yn gynnar y flwyddyn nesaf)

Gofynnodd yr Aelodau hefyd i wahoddedigion a fyddai'n mynychu'r cyfarfod nesaf ar gyfer yr adroddiad ar Anghenion Dysgu Ychwanegol i gynnwys:

- Athro Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) profiadol / cydlynwyr ADY mewn Ysgol Gynradd ac Ysgol Uwchradd.
- Cynrychiolwyr o blith penaethiaid ysgolion Uwchradd a Chynradd gyda gwybodaeth am ADY ledled y Fwrdeistref Sirol.

Yn ychwanegol, gwnaeth yr Aelodau gais am y canlynol:

- Gwybodaeth ynghylch rhestr ysgolion Croeso i Bawb o fewn y Fwrdeistref Sirol.
- Sicrwydd ynghylch gweithdrefnau diogelu Corfforaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Ystadegau ar gyfer atgyfeiriadau Amddiffyn Plant gan Ysgolion.
- Y dylid rhoi ystyriaeth i ymgynghori ag Ysgolion ynghylch testunau posib i'w craffu.
- Y dylid dosbarthu Cofnodion dau gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu pryd y rhoddwyd ystyriaeth i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ymysg Aelodau fel cefndir i'r adroddiad ar ADY ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 5 Gorffennaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn ystyried a chytuno ar amlinelliad drafft arfaethedig y Blaenraglen Waith yn Atodiad A, yn ddarostyngedig i'r uchod a nodwyd y ceir adroddiad ar y Blaenraglen Waith ac unrhyw ddiweddariad gan y Pwyllgor yng nghyfarfod nesaf y COSC.

27. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 10:30